

Trosolwg

Mynd i ddigwyddiadau allweddol Refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr sydd am wybod beth i'w ddisgwyl wrth fynychu ddigwyddiadau allweddol Refferendwm yr UE.

Cynnwys:

Prosesau pleidleisio drwy'r post

Y bleidlais

Y broses gyfrif

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Asiantiaid yn Refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Beth y gall asiantiaid, unwaith y byddant wedi'u penodi, ddisgwyl ei weld yng ndigwyddiadau refferendwm allweddol.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- presenoldeb pan agorir pleidleisiau drwy'r post (a dosbarthu pleidleisiau post yng Ngogledd Iwerddon)
- presenoldeb yn yr etholiad
- presenoldeb yn y cyfrif

Dogfennau cysylltiedig:

- [Asiantiaid yn Refferendwm yr UE](#)
-

Crynodeb

Os bydd ymgyrchwyr am fynd i ddigwyddiadau refferendwm allweddol bydd angen iddynt benodi asiant refferendwm yn yr ardal bleidleisio lle mae am fod yn bresennol. Yna, gall yr asiant refferendwm benodi asiantiaid eraill i fynychu prosesau penodol.

Gall yr asiantiaid refferendwm a'r asiantiaid eraill y maent wedi'u penodi arsylwi'r digwyddiadau allweddol sy'n ymwneud â'r refferendwm, yn cynnwys pan agorir pleidleisiau drwy'r post, y bleidlais a'r cyfrif yn yr ardal honno.

Mae'r ddogfen hon yn eich tywys drwy'r hynny gall asiantiaid ddisgwyl ei weld yn y digwyddiadau y mae hawl ganddynt fynd iddynt.

Cyflwyniad

1.1 Os bydd ymgyrchwyr am fynd i ddigwyddiadau refferendwm allweddol bydd angen iddynt benodi asiant refferendwm erbyn **hanner dydd ar 31 Mai 2016** yn yr ardal bleidleisio lle mae am fod yn bresennol. Ar ôl iddo gael ei benodi, bydd yr asiant refferendwm yn gallu bod yn bresennol mewn digwyddiadau allweddol a phenodi asiantiaid eraill i fod yn bresennol yn y digwyddiadau hyn hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth am benodi asiantiaid yn ein dogfen ar [Asiantiaid yn Refferendwm yr UE](#).

Pleidleisio drwy'r post

1.2 Yng Ngogledd Iwerddon, mae rhai o'r rheolau ar bleidleisio drwy'r post yn wahanol i'r rheolau ym Mhrydain Fawr a Gibraltar. Mae unrhyw wahaniaethau wedi'u hamlygu.

Gwneud cais i bleidleisio drwy'r post

1.3 Yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen i unrhyw un nad yw eisoes wedi trefnu i bleidleisio drwy'r post mewn etholiadau wneud cais i bleidleisio drwy'r post yn Refferendwm yr UE drwy gyflwyno cais i'w Swyddog Cofrestru Etholiadol.

1.4 **Ym Mhrydain Fawr a Gibraltar**, rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy'r post gael eu derbyn erbyn 5pm ar 8 Mehefin 2016. Gall y rhai a benodwyd i bleidleisio fel dirprwy ar ran rhywun arall hefyd wneud cais am bleidlais bost erbyn yr un dyddiad cau.

1.5 **Yng Ngogledd Iwerddon**, rhaid derbyn ceisiadau erbyn 5pm ar 3 Mehefin 2016. Gall y rhai a benodwyd i bleidleisio fel dirprwy ar ran rhywun arall hefyd wneud cais am bleidlais bost drwy wneud cais erbyn yr un dyddiad cau.

Amseriad dosbarthu pleidleisiau post

1.6 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi rhoi cyfarwyddiadau ynghylch y cyfnod ar gyfer dosbarthu'r swp cyntaf o bleidleisiau post i gyfeiriadau tramor ac yn y DU:

- dosbarthu pleidleisiau post - dramor: rhwng 23 Mai a 27 Mai 2016
- dosbarthu pleidleisiau post - y DU: rhwng 27 Mai a 3 Mehefin 2016

1.7 Caiff sypiau dilynol o bleidleisiau post eu dosbarthu yn y cyfnod yn arwain at y diwrnod pleidleisio, gyda swp terfynol yn cael ei ddosbarthu i etholwyr o amgylch 16 Mehefin 2016.

Pleidleisio drwy'r post

1.8 Pan fydd pleidleiswyr post yn cael eu papur pleidleisio, byddant yn ei farcio ac:

- **ym Mhrydain Fawr a Gibraltar** - yn cwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post drwy roi eu llofnod a'u dyddiad geni
- **yng Ngogledd Iwerddon** - yn cwblhau ac yn llofnodi'r datganiad o brawf adnabod ym mhresenoldeb tyst, yn rhoi eu dyddiad geni ac yn gofyn i'w tyst lofnodi'r datganiad.

1.9 Rhaid i bleidleisiau drwy'r post gael eu derbyn gan y Swyddog Cyfrif cyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio.

Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys?

- **Amlen A** yw'r amlen y mae'r etholwr yn dychwelyd ei bapurau pleidleisio ynddi. Fe'i nodir â'r llythyren 'A' a'r geiriau 'amlen papur pleidleisio'.
 - **Amlen B** yw'r amlen y bydd yr etholwr yn ei defnyddio i ddychwelyd amlen y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post neu, yng Ngogledd Iwerddon, y
-

datganiad o brawf adnabod. Caiff ei marcio â'r llythyren 'B' a'r cyfeiriad dychwelyd.

- Mae'r **datganiad pleidleisio drwy'r post**, neu, yng Ngogledd Iwerddon, y **datganiad o brawf adnabod**, yn cynnwys enw'r etholwr, rhif y papur pleidleisio a anfonwyd ato, cyfarwyddiadau ar sut i bleidleisio drwy'r post a lle i'r etholwr lofnodi a nodi ei ddyddiad geni. Hefyd, yng Ngogledd Iwerddon, mae'r datganiad o brawf adnabod yn cynnwys lle i dyst lofnodi.
- **Y papur pleidleisio**

Presenoldeb mewn digwyddiadau pleidleisio drwy'r post

1.10 Caiff asiant pleidleisio drwy'r post fod yn bresennol pan agorir pleidleisiau post a gaiff eu dychwelyd ac arsylwi'r broses honno ac, yn achos Gogledd Iwerddon, caiff hefyd fod yn bresennol yn y broses o ddsbarthu pleidleisiau post. Mae gan asiant pleidleisio drwy'r post yr hawl i arsylwi, ond nid i ymyrryd â'r prosesau.

1.11 Mae gan asiant refferendwm a benodir ar gyfer yr ardal bleidleisio hawl i wneud beth bynnag y bydd gan yr asiant pleidleisio drwy'r post hawl i'w wneud ac felly gall fynychu'r digwyddiadau pleidleisio drwy'r post perthnasol.

Dosbarthu pleidleisiau post - Gogledd Iwerddon yn unig

1.12 Mae Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi [hysbysïadau o amseroedd dosbarthu ac agor pleidleisiau post](#) ar eu gwefan, sy'n cynnwys yr uchafswm nifer o asiantiaid pleidleisio drwy'r post y gellir eu penodi ym mhob sesiwn.

1.13 Bydd y Dirprwy Swyddog Cyfrif yn egluro'r broses o ddsbarthu pleidleisiau post i asiantiaid a gall roi gwybodaeth am y gweithdrefnau i'w dilyn. Dylai asiantiaid gydymffurfio ag

unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Dirprwy Swyddog Cyfrif wedi'u rhoi.

Agor pleidleisiau post

1.14 **Ym Mhrydain Fawr a Gibraltar**, ym mhob sesiwn agor, bydd y Swyddog Cyfrif yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol ac sydd yn eu cofnodion. Os na fydd yn cyfateb, caiff y bleidlais post ei gwrthod.

1.15 Ym mhob sesiwn agor, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol ac sydd yn eu cofnod. Os na fydd yn cyfateb, caiff y bleidlais post ei gwrthod. Bydd y Dirprwy Swyddog Cyfrif hefyd yn sicrhau bod llofnod tyst wedi'i gynnwys ar y datganiad.

1.16 Mae gan asiant pleidleisio drwy'r post yr hawl i arsylwi, ond nid i ymyrryd â'r broses agor. Fodd bynnag, gall asiant pleidleisio drwy'r post wrthwynebu penderfyniad i wrthod pleidlais bost. Ni fydd yn effeithio ar benderfyniad y Swyddog Cyfrif (na'r Dirprwy Swyddog Cyfrif), ond bydd yn cofnodi unrhyw wrthwynebiadau drwy roi'r geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' ar y datganiad pleidleisio drwy'r post.

1.17 Yn yr un modd â'ch asiantiaid pleidleisio drwy'r post, mae gan yr asiant refferendwm yr hawl i wrthwynebu penderfyniad i wrthod hefyd.

1.18 Bydd y Swyddog Cyfrif (neu'r Dirprwy Swyddog Cyfrif) yn egluro'r broses o agor pleidleisiau post i asiantiaid a gall roi gwybodaeth iddynt am y gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar yr hyn y gall asiantiaid ei wneud a'r hyn na allant ei wneud yn y sesiwn. Dylai asiantiaid gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Swyddog Cyfrif (neu'r Dirprwy Swyddog Cyfrif) wedi eu rhoi.

Gwneud cais am wybodaeth o ran niferoedd o bleidleisiau post a ddychwelwyd

1.19 Gall asiantiaid refferendwm a phleidleisio post wneud cais i'r Swyddog Cyfrif am wybodaeth o ran y nifer o bapurau pleidleisio sydd wedi eu dychwelyd.

1.20 Yn ymarferol, y rhif fydd y nifer o bleidleisiau post sydd wedi eu hagog, gan mai dim ond mewn sesiynau agor fydd y nifer o brif amlenni a dderbynnid yn ôl yn cael eu cyfrif. Ni fydd y nifer yma yn union yr un peth â'r nifer o bleidleisiau post sy'n mynd drwy'r cyfrif, gan efallai na fydd rhai prif amlenni yn cynnwys papur pleidleisio a bydd eraill yn cael eu gwrthod yn ystod y broses agor. Fodd bynnag, bydd y ffigwr hwn yn rhoi arwydd o ran i nifer o bleidleisiau a ddychwelwyd i ymgyrchwyr.

1.21 Does dim cyfyngiadau ar y defnydd o'r wybodaeth ystadegol hon, a gall ymgyrchwyr ddefnyddio a chyhoeddi'r wybodaeth hon cyn i'r bleidlais ddod i ben os mynnant.

Dyletswydd i gynnal cyfrinachedd pan agorir pleidleisiau post

1.22 Caiff papurau pleidleisio eu cadw â'u hwynebau i law drwy gydol y broses o agor pleidleisiau post. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor geisio gweld sut y cafodd papurau pleidleisio unigol eu marcio. Felly, mae'n dilyn na chaniateir i bobl gadw cyfrif o faint o bapurau pleidleisio sydd wedi cael eu marcio.

1.23 Hefyd, ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor pleidleisiau post geisio edrych ar farciau neu rifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut y cafodd papur pleidleisio penodol ei farcio na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a ddeilliodd o'r sesiwn. Bydd unrhyw un a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn yn wynebu dirwy neu ddedfryd o garchar.

Pryd y caiff pleidleisiau post eu hagog a sut y bydd asiantiaid refferendwm yn gwybod pryd mae sesiwn agor yn cael ei chynnal?

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- [Gofynion cyfrinachedd – pleidleisio drwy'r post](#)

1.24 Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â'r diwrnod pleidleisio ei hun.

1.25 Rhaid i'r Swyddog Cyfrif roi rhybudd o 48 awr o leiaf i asiantiaid refferendwm yn nodi pryd a ble y cynhelir y sesiynau. Byddant hefyd yn dweud wrth asiantiaid refferendwm sawl asiant pleidleisio drwy'r post a all fynychu pob sesiwn.

1.26 **Ym Mhrydain Fawr a Gibraltar** bydd sesiwn agor derfynol ar ôl i'r bleidlais gau er mwyn agor unrhyw bleidleisiau post a gyflwynir â llaw i orsafoedd pleidleisio. Gellir cynnal y sesiwn hon yn y lleoliad cyfrif neu mewn lleoliad arall. Bydd y Swyddog Cyfrif yn hysbysu asiantiaid refferendwm o'r lleoliad ar gyfer y sesiwn agor derfynol.

1.27 **Yng Ngogledd Iwerddon**, ni ellir cyflwyno pleidleisiau post â llaw i orsafoedd pleidleisio.

1.28 Isod, ceir dwy siart lif yn crynhoi'r prosesau agor pleidleisiau post ym Mhrydain Fawr a Gibraltar ar un llaw, a Gogledd Iwerddon ar y llaw arall:

Siart lif o broses y sesiynau agor ym Mhrydain Fawr a Gibraltar

1.29 Gellir crynhoi'r broses o agor pleidleisiau post ym Mhrydain Fawr a Gibraltar fel a ganlyn:

- 1 Caiff pleidleisiau post eu cludo i'r sesiwn agor mewn blychau pleidleisio
- 2 Tynnir y prif amlenni (amlen B) allan a'u cyfrif
- 3 Nodir cyfanswm y prif amlenni ar ffurflen
- 4 Rhennir prif amlenni (amlen B) rhwng timau o staff agor
- 5 Bydd staff yn agor pob prif amlen (amlen B) ac yn tynnu'r datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlen y papur pleidleisio wedi'i selio (amlen A) allan
- 6 Bydd staff yn cadarnhau bod y rhif ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhif ar amlen A
- 7 Os bydd y rhifau'n cyfateb, bydd staff yn cadarnhau bod yr etholwr wedi darparu llofnod a dyddiad geni (heb gadarnhau mai rhai'r etholwr ydynt ar y cam hwn). Bydd datganiadau pleidleisio drwy'r post heb llofnod a dyddiad geni yn peri i'r bleidlais bost gael ei gwrthod.

Nid oes angen i nifer fach iawn o bleidleiswyr lofnodi eu datganiad pleidleisio drwy'r post. Bydd hepgoriad wedi'i roi i'r pleidleiswyr hyn am na allant lofnodi na darparu llofnod cyson oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu. Bydd y datganiad pleidleisio drwy'r post a anfonir at etholwyr o'r fath yn egluro hyn.

- 8 Os bydd y datganiad **neu** amlen y papur pleidleisio ar goll, neu os na fydd y rhifau ar y datganiad ac amlen y papur pleidleisio yn cyfateb, caiff y ddogfen neu ddogfennau eu rhoi o'r neilltu, eu recordio a'u storio'n ddiogel mewn pecynnau.
- 9 Rhaid i'r Swyddog Cyfrif gadarnhau'r dyddiadau geni a'r llofnodion a ddarparwyd ar y datganiadau
- 10 Rhaid i'r Swyddog Cyfrif fod yn fodlon bod y dyddiadau geni a'r llofnodion ar y datganiadau yn cyfateb i'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol ac y cedwir cofnod ohonynt
- 11 Ar ôl cadarnhau'r llofnodion a'r dyddiadau geni, caiff datganiadau pleidleisio drwy'r post eu symud o'r byrddau
- 12 Bydd staff yn agor amlenni'r papurau pleidleisio (amlen A) ac yn tynnu'r papurau pleidleisio allan
- 13 Bydd staff yn cadarnhau bod y rhif ar gefn y papur pleidleisio yn cyfateb i'r rhif ar amlen y papur pleidleisio (amlen 'A)
- 14 Caiff y papurau pleidleisio dilys (**nid** y pleidleisiau) eu cyfrif a chaiff y cyfanswm ei gofnodi
- 15 Rhoddir pob papur pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio

Bydd y Swyddog Cyfrif yn cyfateb dogfennau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd ar wahân, ar yr amod bod y datganiad wedi'i gwblhau'n gywir ac wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod pleidleisio.

Rhaid cadw papurau pleidleisio â'u hwynebâu i lawr drwy gydol y broses hon.

Papurau pleidleisio **dilys** yw'r papurau pleidleisio hynny y mae'r datganiad pleidleisio drwy'r post cysylltiedig wedi bodloni'r gwiriadau o ran llofnod a dyddiad geni.

Caiff papurau pleidleisio annilys eu rhoi o'r neilltu a'u storio'n ddiogel mewn pecynnau.

Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys ac a wrthodwyd ym Mhrydain Fawr a Gibraltar

1.30 Oni fydd hepgoriad wedi ei roi, bydd y Swyddog Cyfrif yn gwrthod datganiad pleidleisio drwy'r post os bydd llofnod a/neu ddyddiad geni ar goll neu os na fydd llofnod a/neu ddyddiad geni yn cyfateb i'r rhai a ddarparwyd ar y cais gwreiddiol.

1.31 Atodir datganiadau a wrthodwyd i'r papurau pleidleisio perthnasol neu amlenni'r papurau pleidleisio. Rhoddir y gair 'gwrthodwyd' arnynt ac fe'u dangosir i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol.

1.32 Gall asiantiaid wrthwynebu penderfyniad y Swyddog Cyfrif i wrthod unrhyw bleidlais bost ac, os gwnânt hynny, ychwanegir y geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' at y datganiad. Fodd bynnag, mae penderfyniad y Swyddog Cyfrif yn derfynol a bydd y bleidlais bost yn parhau i gael ei gwrthod.

Siart lif o broses y sesiynau agor yng Ngogledd Iwerddon

1.33 Gellir crynhoi'r broses o agor pleidleisiau post yng Ngogledd Iwerddon fel a ganlyn:

- 1 Caiff pleidleisiau post eu cludo i'r sesiwn agor mewn blychau pleidleisio
 - 2 Tynnir y prif amlenni (amlen B) allan a'u cyfrif
 - 3 Nodir cyfanswm y prif amlenni ar ffurflen
 - 4 Rhennir prif amlenni (amlen B) rhwng timau o staff agor
 - 5 Bydd staff yn agor pob prif amlen (amlen B) ac yn tynnu'r datganiad o brawf adnabod ac amlen y papur pleidleisio wedi'i selio (amlen A) allan
 - 6 Bydd staff yn cadarnhau bod y rhif ar y datganiad o brawf adnabod yn cyfateb i'r rhif ar amlen A
 - 7a Os bydd y rhifau'n cyfateb, bydd staff yn cadarnhau bod yr etholwr wedi darparu llofnod a dyddiad geni (heb gadarnhau mai rhai'r etholwr ydynt ar y cam hwn).
Bydd datganiadau o brawf adnabod heb lofnod a dyddiad geni yn peri i'r bleidlais bost gael ei gwrthod.
 - 7b Bydd staff yn sicrhau bod tyst wedi gweld y datganiad.
-

- 8 Os bydd y datganiad **neu** amlen y papur pleidleisio ar goll, neu os na fydd y rhifau ar y datganiad ac amlen y papur pleidleisio yn cyfateb, caiff y ddogfen neu ddoofennau eu rhoi o'r neilltu. eu recordio a'u storio'n
- 9 Rhaid i'r Dirprwy Swyddog Cyfrif gadarnhau'r dyddiadau geni a'r llofnodion a ddarparwyd ar y datganiadau
- 10 Rhaid i'r Dirprwy Swyddog Cyfrif fod yn fodlon bod y dyddiadau geni a'r llofnodion ar y datganiadau yn cyfateb i'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol ac y cedwir cofnod ohonynt
- 11 Ar ôl cadarnhau'r llofnodion a'r dyddiadau geni, caiff datganiadau o brawf adnabod eu symud o'r byrddau
- 12 Bydd staff yn agor amlenni'r papurau pleidleisio (amlen A) ac yn tynnu'r papurau pleidleisio allan
- 13 Bydd staff yn cadarnhau bod y rhif ar gefn y papur pleidleisio yn cyfateb i'r rhif ar amlen y papur pleidleisio (amlen 'A)
- 14 Caiff y papurau pleidleisio dilys (**nid** y pleidleisiau) eu cyfrif a chaiff y cyfanswm ei gofnodi
- 15 Rhoddir pob papur pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod

Bydd y Dirprwy Swyddog Cyfrif yn cyfateb dogfennau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd ar wahân, ar yr amod bod y datganiad o brawf adnabod wedi'i gwblhau'n gywir ac wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod pleidleisio.

Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys ac a wrthodwyd yng Ngogledd Iwerddon

1.34 Bydd y Dirprwy Swyddog Cyfrif yn gwrthod datganiad o brawf adnabod os:

- na fydd tyst wedi'i weld
- bydd llofnod a/neu ddyddiad geni ar goll
- na fydd llofnod a/neu ddyddiad geni yn cyfateb i'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol gan yr etholwr ac y cadwyd cofnod ohonynt

1.35 Atodir datganiadau a wrthodwyd i'r papurau pleidleisio perthnasol neu amlenni'r papurau pleidleisio. Rhoddir y gair 'gwrthodwyd' arnynt ac fe'u dangosir i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol.

1.36 Gall asiantiaid wrthwynebu penderfyniad y Dirprwy Swyddog Cyfrif i wrthod unrhyw bleidlais bost ac, os gwnânt hynny, ychwanegir y geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' at y datganiad. Fodd bynnag, mae penderfyniad y Dirprwy Swyddog Cyfrif Lleol yn derfynol a bydd y bleidlais bost yn parhau i gael ei gwrthod.

Gorsafoedd pleidleisio

1.37 Mae gan asiantiaid refferendwm yr hawl i arsylwi digwyddiadau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Hefyd, gallant benodi asiantiaid i fynychu gorsafoedd pleidleisio. Ceir manylion am sut i benodi asiantiaid pleidleisio yn [Asiantiaid yn Refferendwm yr UE](#).

Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?

1.38 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis pleidleisio yn bersonol yn eu gorsaf bleidleisio hwy. Gall unrhyw un ar gofrestr etholiadol yr orsaf bleidleisio fynd ati i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio yn y refferendwm, oni bai:

- ei fod yn bleidleisiwr post cofrestredig
- ei fod yn bleidleisiwr drwy ddirprwy cofrestredig a bod ei ddirprwy eisoes wedi pleidleisio ar ei ran neu wedi gwneud cais i bleidleisio ar ei ran
- nad yw'n 18 mlwydd oed neu hŷn ar y diwrnod pleidleisio
- ei fod yn ddinesydd o un o wledydd eraill yr UE ac nad oes ganddo unrhyw genedligrwydd arall a fyddai'n golygu bod ganddo hawl i bleidleisio yn y refferendwm. Mae gan ddinasyddion o Iwerddon, Malta a Cyprus, er eu bod hefyd yn ddinasyddion yr UE, hawl i bleidleisio yn y refferendwm.

Yr unig etholwyr sy'n gorfod dod â cherdyn pleidleisio gyda nhw i bleidleisio yw'r rhai sydd wedi cofrestru'n ddiennw oherwydd y risgiau i'w diogelwch.

1.39 Bydd etholwyr yn cael cerdyn pleidleisio cyn y refferendwm yn dweud wrthynt ble a phryd y gallant bleidleisio. Nid oes angen i etholwyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio.

1.40 Ni ellir rhoi papur pleidleisio i bleidleiswyr post cofrestredig yn yr orsaf bleidleisio.

1.41 **Ym Mhrydain Fawr a Gibraltar**, gall pleidleiswyr ddychwelyd eu pecyn pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau i'w gorsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio. Fel arall, gallant ddychwelyd eu pleidlais bost i orsafoedd pleidleisio yn yr ardal bleidleisio (bydd y swyddfa etholiadau yn gallu rhoi manylion iddynt) neu drwy law i'r Swyddog Cyfrif yn y swyddfa etholiadau. Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio gael eu rhoi i staff gorsafoedd pleidleisio ac nid yn y blwch pleidleisio.

1.42 **Yng Ngogledd Iwerddon**, ni all pleidleiswyr ddychwelyd eu pleidleisiau post wedi'u cwblhau i orsaf bleidleisio.

Oriau agor gorsafoedd pleidleisio

1.43 Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor ar y diwrnod pleidleisio rhwng 7am a 10pm.

Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio

1.44 Rhaid i'r Swyddog Cyfrif roi hysbysiad cyhoeddus o leoliad gorsafoedd pleidleisio erbyn 1 Mehefin 2016 fan bellaf. Bydd yn rhoi copi o'r hysbysiad hwn i asiantiaid refferendwm yn fuan wedi hyn.

Beth yw gwaith asiant pleidleisio?

1.45 Mae gan asiantiaid pleidleisio sawl rôl bwysig i'w chwarae ar y diwrnod pleidleisio. Gallant:

- fod yn bresennol yn eu gorsaf bleidleisio cyn iddi agor er mwyn gwyllo'r Swyddog Llywyddu yn dangos y blwch pleidleisio gwag cyn ei selio
- canfod cam-beronadu ac atal pobl rhag pleidleisio fwy nag unwaith yn y refferendwm (heblaw fel dirprwyon)
- bod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu yn marcio papur pleidleisio ar gais etholwr sydd angen

Caiff unrhyw bleidleiswyr sy'n aros mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm bleidleisio, hyd yn oed os nad ydynt wedi cael papur pleidleisio.

Er y gall asiant pleidleisio arsylwi'r bleidlais, nid oes rhaid iddo fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio er mwyn i weithdrefnau pleidleisio a gweithdrefnau cysylltiedig gael eu cynnal.

Cambersonadu - pan fydd unrhyw unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug).

Ni ellir rhoi seliau asiantiaid pleidleisio ar flychau pleidleisio ar ddechrau'r cyfnod

cymorth i farcio papur pleidleisio oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu

- rhoi gwybod i'r asiant refferendwm am unrhyw weithgareddau amhriodol a chadw nodiadau, os oes angen, er mwyn rhoi tystiolaeth yn y llys
- bod yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio pan gaiff y pecynnau amrywiol o ddogfennau eu selio
- atodi eu sêl i unrhyw becynnau a drefnir gan y Swyddog Llywyddu ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, gan gynnwys y blwch pleidleisio

1.46 Gall yr asiant refferendwm hefyd wneud unrhyw beth y mae gan yr asiant pleidleisio hawl i'w wneud.

Gwneud cais o ran y nifer o bapurau pleidleisio a roddwyd mewn gorsaf bleidleisio

1.47 Ym **Mhrydain Fawr**, gall asiantiaid refferendwm a phleidleisio sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio benodol ofyn bod staff gorsaf bleidleisio yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw ar y niferoedd o bapurau pleidleisio sydd wedi'u rhoi yn yr orsaf bleidleisio. Ni fydd staff gorsaf bleidleisio yn gwneud nac yn darparu unrhyw gyfrifiadau o ran nifer sydd wedi pleidleisio (turnout).

1.48 Bydd staff gorsaf bleidleisio yn darparu gwybodaeth ar y nifer o bapurau pleidleisio sydd wedi'u rhoi lle bo modd, ond ni fyddant yn delio gydag unrhyw gais lle byddai gwneud hynny, yn eu barn nhw, yn effeithio'n negyddol ar unrhyw bleidleiswyr sydd mewn ciw nei'n aros i dderbyn papur pleidleisio. Pan na all staff gorsaf bleidleisio ddelio gyda chais heb ar amser penodol, byddant yn cynghori bod yr asiant yn dychwelyd, lle bydd y wybodaeth yn cael ei darparu os yw'n bosibl.

1.49 Gall asiantiaid wneud mwy nag un cais drwy gydol y diwrnod pleidleisio, ond ni fydd staff yn gallu delio gyda cheisiadau gan asiant penodol yn amlach nag unwaith yr awr.

1.50 Yng **Ngogledd Iwerddon**, fel mewn etholiad, bydd staff gorsaf bleidleisio yn arddangos hysbyâsiad yn nodi'r nifer o bapurau pleidleisio a roddwyd yn yr orsaf bleidleisio honno, wrth y fynedfa am 12 canol dydd, 5pm a 9pm.

1.51 Yn **Gibraltar**, bydd gwybodaeth o ran y nifer o bapurau pleidleisio a roddwyd ar gael ar gyfer yr ardal pleidleisio i gyd, wedi'i dorri i lawr yn ôl gorsaf pleidleisio. Mae hyn yn arferol ar gyfer etholiadau yn Gibraltar. Bydd y wybodaeth ar gael ar-lein yn <http://www.parliament.gi/referendum>

1.52 Does dim cyfyngiadau ar y defnydd o'r wybodaeth ystadegol hon, a gall ymgyrchwyr ddefnyddio a chyhoeddi'r wybodaeth hon cyn i'r bleidlais ddod i ben os mynnant.

Cynnal cyfrinachedd y bleidlais

1.53 Mae gan unrhyw un sy'n mynychu gorsaf pleidleisio ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd y bleidlais. Yn benodol, rhaid sicrhau na chaiff y wybodaeth ganlynol ei datgelu:

- enw neu rif etholiadol y rhai sydd wedi neu heb pleidleisio
- y rhif neu'r marc adnabod unigryw arall ar y papur pleidleisio

1.54 Hefyd, rhaid i beidio â cheisio canfod sut mae pleidleisiwr wedi pleidleisio na pha ateb y mae ar fin pleidleisio drosto.

1.55 Gall asiant pleidleisio farcio ar ei gopi ef o'r gofrestr o etholwyr y pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapur pleidleisio. Os bydd yr asiant pleidleisio yn gadael yr orsaf pleidleisio yn ystod yr oriau pleidleisio, rhaid iddo adael y copi wedi'i farcio o'r gofrestr yn yr orsaf pleidleisio er mwyn sicrhau na thorri gofynion cyfrinachedd.

1.56 Bydd unrhyw unigolyn a ddyfernir yn euog o dorri'r gofynion cyfrinachedd yn wynebu dirwy neu ddedfryd o garchar.

Beth yw'r broses pleidleisio arferol?

1.57 Mae'r broses pleidleisio arferol mewn gorsaf pleidleisio yn syml a gellir ei chrynhof fel a ganlyn:

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

[Gofynion cyfrinachedd – y bleidlais](#)

Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn...

- gofyn i bleidleiswyr am eu henw a'u cyfeiriad (ac, yng Ngogledd Iwerddon, gwirio eu prawf adnabod ffotograffig), a gwneud yn siŵr eu bod yn gymwys i bleidleisio
- marcio llinell syth yn erbyn cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr
- dweud rhif ac enw'r etholwr yn uchel
- ysgrifennu rhif yr etholwr ar restr wrth ymyl rhif y papur pleidleisio i'w ddsbarthu
- gwneud yn siŵr bod y papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol (e.e. cod bar neu ddyfrnod)
- plygu'r papur pleidleisio ac yna ei roi i'r pleidleisiwr heb ei blygu

Bydd y pleidleisiwr yn...

- marcio'r papur pleidleisio yn breifat yn y bwth pleidleisio
- plygu'r papur pleidleisio ac yn dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu
- rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio ac yn gadael yr orsaf pleidleisio

1.58 Gall y Swyddog Llywyddu helpu unrhyw un na all farcio'r papur pleidleisio ei hun. Fel arall, gall pleidleisiwr ddod â rhywun gydag ef y mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i'w helpu i farcio ei bleidlais. Ni all rhywun helpu mwy na dau pleidleisiwr yn y refferendwm.

1.59 Gall y Swyddog Cyfrif drefnu i unrhyw bleidleisiau post a gyflwynwyd gan etholwyr mewn gorsaf pleidleisio gael eu casglu drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Nid yw hyn yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon, lle na all pleidleisiau post gael eu dychwelyd i orsafoedd pleidleisio. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd mewn pecyn cyn iddynt gael eu casglu. Gall unrhyw asiantiaid sy'n bresennol ychwanegu eu sêl eu hunain at y pecyn hefyd, os dymunant.

Mae'r Swyddog Cyfrif yn gyfrifol am y modd y cynhelir y refferendwm. Os yw gweithgareddau'r rhifwyr yn achos pryder iddynt, gallant ofyn i'r rhifwyr gydymffurfio â'r cod ymddygiad cytûn neu adael y man pleidleisio.

Rhifwyr

1.60 Pobl sy'n sefyll y tu allan i fannau pleidleisio ac yn cofnodi rhifau etholwyr sydd wedi pleidleisio yw rhifwyr. Wedyn, gallant nodi cefnogwyr tebygol nad ydynt wedi pleidleisio a'u hannog i wneud hynny cyn i'r orsaf bleidleisio gau.

1.61 Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi unrhyw wybodaeth iddynt. Ni chaiff rhifwyr eu cynnwys mewn etholiadau na refferenda yng Ngogledd Iwerddon.

1.62 Rydym wedi llunio taflen ffeithiau o'r [hyn y dylai ac na ddylai rhifwyr ei wneud](#), yn ogystal â [chanllawiau mwy cynhwysfawr ar weithgareddau rhifwyr](#). Nod y canllawiau yw sicrhau bod pawb yn gwybod yn union beth sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol ac fe'u lluniwyd i hyrwyddo safonau ymddygiad priodol. Gall y Swyddog Cyfrif roi ei fersiwn ei hun o ganllawiau i rifwyr hefyd.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r gorsafoedd gau?

1.63 Pan fydd pob pleidleisiwr a gafodd bapur pleidleisio wedi pleidleisio, caiff y blwch pleidleisio ei selio gan y Swyddog Llywyddu a gall asiantiaid pleidleisio ychwanegu eu sêl eu hunain os dymunant. Ar ôl i'r Swyddog Llywyddu gwblhau'r holl waith papur, caiff y blwch pleidleisio wedi'i selio ei gymryd i leoliad y cyfrif.

Y broses gyfrif

1.64 Cynhelir cyfrifon ym mhob ardal bleidleisio ledled y DU a Gibraltar. Mae gan asiantiaid refferendwm hawl i arsylwi'r cyfrif yn yr ardal bleidleisio a benodwyd iddynt a gallant hefyd benodi asiantiaid i fynd i'r cyfrif yn yr ardal bleidleisio honno. Ceir manylion am sut i benodi asiantiaid cyfrif yn [Asiantiaid yn Refferendwm yr UE](#).

Beth yw gwaith asiant cyfrif?

1.65 Mae gan asiantiaid cyfrif nifer o rolau pwysig i'w chwarae yn y cyfrif:

- maent yn arsylwi'r broses gyfrif ac yn sicrhau ei bod yn gywir
- gallant dynnu sylw staff cyfrif at unrhyw bapurau pleidleisio amheus.
- os byddant yn anghytuno â phenderfyniad y Swyddog Cyfrif i wrthod papur pleidleisio, gallant ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Lleol farcio ar y papur pleidleisio "gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod"
- os caiff y broses gyfrif ei hatal am unrhyw reswm, gall asiantiaid cyfrif ychwanegu eu seliau pan fydd y Swyddog Cyfrif yn selio'r blychau pleidleisio a'r amlenni
- os mai hwy yw'r 'asiant cyfrif dynodedig', gallant wneud cais am ailgyfrif ar lefel ardal bleidleisio

1.66 Gall asiant refferendwm hefyd wneud unrhyw beth y gall asiant cyfrif ei wneud, yn cynnwys gofyn am ailgyfrif ar lefel ardal bleidleisio.

Pryd a ble y cynhelir y cyfrif?

1.67 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo y bydd y broses o ddilysu a chyfrif yn dechrau am 10pm amser y DU. Bydd y Swyddog Cyfrif yn hysbysu'r asiantiaid cyfrif a benodwyd yn eu hardal bleidleisio o leoliad y cyfrif.

Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif

Cofnodi blychau pleidleisio

- 1 Bydd staff y Swyddog Cyfrif yn anfon y blychau pleidleisio o'r orsaf pleidleisio i leoliad y cyfrif
- 2 Bydd staff y Swyddog Cyfrif yn cofnodi blychau pleidleisio wrth iddynt gyrraedd lleoliad y cyfrif
- 3 Caiff blychau pleidleisio eu gwagio ar fyrddau a dangosir y blychau gwag i asiantiaid
- 4 Bydd staff yn cyfrif y papurau pleidleisio o bob gorsaf pleidleisio
- 5 Bydd staff yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau a ddsbarthwyd, fel y cofnodir ar gyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddogion Llywyddu
- 6 Dangosir y papurau pleidleisio a ddilyswyd i asiantiaid referendwm ac asiantiaid cyfrif yn wynebu i fyny
- 7 Bydd y Swyddog Cyfrif yn pennu'r rhesymau dros unrhyw anghysondebau ac yn llunio cyfanswm terfynol wedi ei ddilysu
- 8 Bydd y Swyddog Cyfrif yn llunio datganiad o'r broses ddilysu. Gall asiantiaid weld neu gopïo'r datganiad hwn os dymunant

9

Bydd y staff yn didoli'r papurau pleidleisio yn bleidleisiau ar gyfer pob ateb i gwestiwn y refferendwm, h.y. 'Aros' a 'Gadael'

Cyfrif y pleidleisiau

10

Bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ateb i gwestiwn y refferendwm, h.y. 'Aros' a 'Gadael'

11

Bydd y Swyddog Cyfrif yn rhannu'r cyfanswm lleol dros dro â'r asiantiaid. Gall asiant refferendwm neu asiant cyfrif dynodedig ofyn i'r Swyddog Cyfrif ailgyfrif y pleidleisiau ar lefel ardal bleidleisio

Gall y Swyddog Cyfrif wrthod ailgyfrif os bydd yn credu bod y cais yn afresymol.

12

Pan fydd yn fodlon bod y ffigurau'n gywir, bydd y Swyddog Cyfrif yn hysbysu'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol (neu'r Prif Swyddog Cyfrif yn achos Gogledd Iwerddon) o'r cyfanswm lleol i'w gymeradwyo ganddo

Ailgyfrifo

1.68 Dim ond ar lefel ardal bleidleisio y gellir gofyn am ailgyfrif a dim ond gan asiant refferendwm a benodwyd ar gyfer yr ardal bleidleisio, neu asiant cyfrif a ddynodwyd yn benodol at y diben hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am benodi yn [Asiantiaid yn Refferendwm yr UE](#).

1.69 Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ailgyfrifon rhanbarthol na chenedlaethol. Pan fydd y cyfansymiau lleol

wedi cael eu cyflwyno i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ac wedi cael eu cymeradwyo, ni ellir ailgyfrif.

Beth os nad yw'r bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir?

1.70 Ni chaiff papur pleidleisio ei gyfrif os:

- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol
- rhoddir pleidlais i'r ddau ateb i gwestiwn y refferendwm
- oes unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu ei farcio y gall y pleidleisiwr ei adnabod
- yw heb ei farcio neu os nad yw'n cynnwys bwriad pendant y pleidleisiwr

1.71 Rhaid i'r Swyddog Cyfrif lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd am y rhesymau hyn.

1.72 Os yw bwriad y pleidleisiwr yn glir ar bapur pleidleisio ac na all unrhyw farc neu ysgrifen ei enwi, ni fydd yn ddi-rym os yw pleidlais wedi ei marcio:

- rywle arall yn hytrach na'r man priodol
- mewn ffordd arall heblaw croes (e.e. tic)
- mae'r bleidlais wedi'i marcio drwy fwy nac un marc

1.73 Rhaid i'r Swyddog Cyfrif roi'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio a wrthodir. Rhaid iddo ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod" os bydd asiant cyfrif yn gwrthwynebu penderfyniad y Swyddog Cyfrif. I gael rhagor o fanylion am y broses o ddyfarnu papurau pleidleisio amheus, gweler yr adran ar [wybodaeth atodol](#).

Coladu cyfansymiau a chyfansymio'r canlyniad

1.74 Bydd y refferendwm yn creu un canlyniad ar gyfer y DU a Gibraltar gyfan, a gaiff ei gyfrifo drwy goladu'r cyfansymiau ar gyfer pob un o'r 382 o ardaloedd pleidleisio. Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn defnyddio system electronig, ddiogel o

goladu canlyniadau er mwyn coladu'r cyfansymiau lleol a rhanbarthol.

1.75 Pan fydd y Swyddog Cyfrif wedi rhannu'r cyfanswm dros dro â'r asiantiaid a'u bod yn fodlon bod eu ffigurau'n gywir, byddant yn hysbysu'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol o gyfanswm y cyfrif. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd y Swyddog Cyfrif yn hysbysu'r Prif Swyddog Cyfrif yn uniongyrchol o gyfanswm y cyfrif. Pan fydd y ffigurau wedi'u cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol (neu'r Prif Swyddog Cyfrif yn achos Gogledd Iwerddon), bydd y Swyddog Cyfrif yn gallu datgan eu cyfansymiau lleol.

1.76 Bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn coladu'r holl gyfansymiau lleol ar gyfer yr holl ardaloedd pleidleisio yn ei ranbarth etholiadol er mwyn llunio cyfanswm rhanbarthol. Bydd yn rhoi gwybod i'r Prif Swyddog Cyfrif beth yw'r cyfanswm rhanbarthol ac, os bydd yn fodlon ei fod yn gywir, bydd yn cymeradwyo'r ffigurau ac yn awdurdodi datgan y cyfanswm rhanbarthol. Yna, bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn mynd ati i gyhoeddi ei gyfanswm rhanbarthol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny.

1.77 Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn coladu'r cyfansymiau o'r 11 o ranbarthau etholiadol ym Mhrydain Fawr a'r cyfanswm ar gyfer Gogledd Iwerddon. Pan fydd hyn wedi'i gwblhau, bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn gallu cyhoeddi canlyniad y refferendwm.

Gwybodaeth atodol

Papurau pleidleisio amheus

1.78 Er mwyn helpu Swyddogion Cyfrif, rydym wedi llunio canllawiau ar sut i ddyfarnu pleidleisiau ar bapurau pleidleisio a all ymddangos yn amheus. Ceir y canllawiau hyn yn ein llyfryn [Ymdrin â phapurau pleidleisio amheus](#). Rydym hefyd wedi llunio [mat bwrdd o bleidleisiau a ganiateir a rhai a wrthodir](#) y gellir cyfeirio ato'n gyflym.

1.79 Mae'r enghreifftiau a roddir yn y dogfennau hyn yn seiliedig ar reolau'r etholiad. Noder, er bod y dogfennau hyn yn darparu canllawiau ar gyfer Swyddogion Cyfrif, y Swyddog Cyfrif unigol sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud penderfyniad ar bapurau pleidleisio unigol. Bydd ei benderfyniad i wrthod papur pleidleisio penodol yn ystod y broses gyfrif neu ailgyfrif yn derfynol a dim ond ar ôl cynnal arolwg barnwrol y gellir ei adolygu.